At Weinidogion Cymru,

**Dyletswyddau Adrodd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013**

Yn unol â'r dyletswyddau o dan adran 7(3) a 10(2) o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, isod, dyma adroddiad blynyddol Cyngor Sir Ceredigion yn 2018-2019.

<table>
<tr>
<td>Y camau sydd wedi'u cymryd i hybu teithiau llesol</td>
<td>
Crëwyd map Teithio Llesol newydd ar gyfer Aberystwyth, a gwnaed hynny ar y cyd â Sustrans. Rhannwyd copïau papur ac uwchlwythwyd y fersiwn ar gyfer y we i dudalen we Teithio Llesol.
Darparwyd hyfforddiant Kerbcraft i 350 disgybl ysgol gynradd.
Darparwyd hyfforddiant seiclo Safonau Cenedlaethol i 482 disgybl ysgol gynradd.
Hyrwyddwyd a chefnogwyd Wythnos Cerdded i'r Ysgol gan Swyddog Diogelwch y Ffyrdd mewn nifer o ysgolion cynradd.
Mae'r Awdurdod yn parhau i ddarparu cefnogaeth weinyddol a swyddfa i Swyddog Ysgolion Sustrans ar gyfer Gorllewin Cymru.
Mae Swyddog Ysgolion Sustrans wedi parhau i gyflwyno Rhaglen Sustrans ar gyfer Hyrwyddo Teithio Llesol mewn Ysgolion Cynradd yng Ngheredigion, a chefnogodd 19 ysgol gynradd yn y sir rhwng mis Medi 2018 a mis Gorffennaf 2019, sef yr ysgolion canlynol:
<ul>
<li>Talybont</li>
<li>Penrhyncoch</li>
<li>Craig-yr-Wylfa, Y Borth</li>
<li>Penllwyn, Capel Bangor</li>
<li>Syr John Rhys, Ponterwyd</li>
<li>Comins Coch</li>
<li>Padarn Sant, Aberystwyth</li>
<li>Plascrug, Aberystwyth</li>
<li>Llwyn-yr-Eos, Penparcau, Aberystwyth</li>
<li>Mynach, Pontarfynach</li>
<li>Aberteifi</li>
<li>Llechryd</li>
<li>T.Llew Jones, Brynhoffnant</li>
<li>Felinfach</li>
<li>Aberaeron</li>
<li>Llanilar</li>
<li>Cilcennin</li>
<li>Aberporth</li>
<li>Rhydypennau, Bow Street</li>
</ul>
</td>
</tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | Ariannodd yr Awdurdod arddangosiad o sgiliau BMX mewn 4 ysgol gynradd. Trefnwyd hyn gan Sustrans fel gwobr i'r ysgolion a berfformiodd yn dda yn ystod yr her flynyddol o'r enw 'Big Pedal'.<br><br>Cyflwynwyd datganiadau i'r wasg er mwyn hyrwyddo'r gwaith a ariennir drwy grant ar gyfer seilwaith newydd o ran Teithio Llesol a Llwybrau Diogel mewn Cymunedau, a chafodd y rhain eu cynnwys yn y wasg leol. Hefyd, cafodd y rhain eu cynnwys ar y dudalen newyddion ar wefan y Cyngor a safleoedd cyfryngau cymdeithasol y Cyngor.<br><br>Cafodd Adroddiad Teithio Llesol Blynyddol 2017/18 a'r wybodaeth atodol eu huwchlwytho i dudalen we Teithio Llesol.<br><br>Cafodd taflenni gwybodaeth a deunydd hyrwyddo arall a baratowyd gan yr Awdurdod hwn eu harddangos yn y Gynhadledd Teithio Llesol yn Wrecsam, yn dilyn cais gan Lywodraeth Cymru. |
| Y camau sydd wedi'u cymryd i ddiogelu llwybrau teithio llesol newydd a chyfleusterau cysylltiol a gwelliannau | Gweler dogfen ar wahân o'r enw 'Adroddiad Teithio Llesol Ceredigion 2018-19' (isod). |
| Costau llwybrau a chyfleusterau teithio llesol newydd a gwelliannau i lwybrau a chyfleusterau teithio llesol cysylltiedig yn y flwyddyn ariannol flaenorol. | **Y Gronfa Drafnidiaeth Leol**<br><br>Llwybr cyd-ddefnyddio rhwng Bow Street ac IBERS £539,506.42*<br><br>Datblygu llwybrau'r Map Rhwydwaith Integredig £105,465.94<br><br>**Y Gronfa Teithio Llesol**<br><br>Pecyn o Gynlluniau Teithio Llesol Ceredigion £221,616.25*<br><br>**Llwybrau Diogel mewn Cymunedau**<br><br>Ysgol Henry Richard Tregaron (3-16 oed) £120,047.17**<br><br>*mae hyn yn cynnwys arian cyfatebol oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion **ynghyd ag arian oddi wrth y trydydd partïon a nodwyd isod. |

| | |
|---|---|
| | **Grant Refeniw Diogelwch ar y Ffyrdd**<br><br>• Hyfforddiant Kerbcraft £18,111<br>• Hyfforddiant Seiclo Safonau Cenedlaethol £18,763<br><br>**Cyngor Ceredigion (cynllun nad yw'n cael ei ariannu drwy grant)**<br><br>Troedffordd Coedlan Pump, Penparcau, Aberystwyth £52,335.56 |

Yn ogystal â'r uchod (dewisol):

| | |
|---|---|
| Gwariant dangosol ar gyfer llwybrau a chyfleusterau teithio llesol newydd a gwelliannau i lwybrau teithio llesol cyfredol ynghyd â chyfleusterau cysylltiedig sy'n cael eu hariannu'n llawn neu'n rhannol gan drydydd parti. | **Llwybrau Diogel mewn Cymunedau**<br><br>• **Ysgol Henry Richard Tregaron (3-16 oed)**<br>Cafwyd £3,000 o arian cyfatebol oddi wrth Gyngor Tref Tregaron. |
| Hyd y llwybrau newydd:<br><br>- Cerdded<br>- Beicio<br>- Cyd-ddefnyddio<br>- | - Amherthnasol<br>- Amherthnasol<br>- 1,219 metr |
| Hyd y llwybrau wedi'u gwella:<br><br>- Cerdded<br>- Beicio<br>- Cyd-ddefnyddio | - 191 metr<br>- Amherthnasol<br>- Amherthnasol |
| Cyfleusterau teithio llesol newydd a gwell | Crëwyd llwybr cyd-ddefnyddio newydd 1km o hyd rhwng Bow Street ac IBERS. Gosodwyd strwythur pont newydd o ddur sy'n 2.5m o led, a hynny yn lle'r bont droed gul o bren a oedd yno. Gosodwyd dwy fainc eistedd newydd. Gosodwyd tua 30 o 'lygaid solar' (*Solar Eyes)* ar hyd rhan o'r llwybr lle y mae'n symud i ffwrdd wrth y gerbytffordd – mae'r rhain yn goleuo am i fyny ac maent wedi'u gosod am y tro cyntaf i'w treialu. Yn ogystal, crëwyd ardal sy'n gynefin naturiol i fywyd gwyllt, plannwyd coed ac erbyn hyn mae clawdd |

| | |
|---|---|
| | newydd wedi'i ail-blannu sy'n cynnwys mwy o amrywiaeth o rywogaethau brodorol.<br><br>Yng Nghoedlan Pump ym Mhenparcau, Aberystwyth, cafodd rhan o droedffordd gul ei lledaenu a gosodwyd arwyneb tarmac llyfn newydd arni. Roedd hyn yn golygu bod gan bobl, yn enwedig defnyddwyr cymhorthion symudedd, gysylltiad gwell at y llwybr cyd-ddefnyddio gerllaw, a oedd wedi'i wella yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol ac sy'n mynd i ganol tref Aberystwyth.<br><br>Ger Ysgol Henry Richard, Tregaron, gosodwyd 2 dwmpath cyflymder newydd a chroesfan sebra wedi'i chodi newydd, ynghyd â chyfuniad newydd o ardaloedd 20 mya ac arwyddion cyfyngiad cyflymder 20 mya dros dro. Cafodd troedffyrdd yn ardal yr ysgol eu gwella a'u hailwynebu, gosodwyd bolardiau newydd i ddiogelu cerddwyr a chrëwyd rhwystr ymwthiol (*build-out*) newydd ar un o'r ffyrdd i'r ysgol er mwyn datrys problem gyda man cyfyng ar droedffordd gul iawn.<br><br>**Roedd Pecyn Teithio Llesol Ceredigion yn cynnwys y gwaith a'r gwelliannau canlynol yn Aberystwyth ac Aberteifi:**<br><br>Yng nghanol tref Aberystwyth gwnaed gwelliannau i gyrbau isel, palmantau botymog a mynediad yn gyffredinol er budd cerddwyr ac yn benodol defnyddwyr cadeiriau gwthio / cymhorthion symudedd a phobl sydd â nam ar eu golwg.<br><br>Gosodwyd ramp newydd i feiciau ar risiau ar y ffordd i mewn i Lyfrgell Genedlaethol Cymru.<br><br>Gosodwyd 11 Gorsaf Wefru E-feiciau newydd yn Aberystwyth: 5 ar Gampws Penglais Prifysgol Aberystwyth, 3 yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru at ddefnydd y staff a'r cyhoedd, a 3 yn swyddfeydd y Cyngor yng Nghanolfan Rheidol yng nghysgodfan beiciau'r staff. Dyma'r rhai cyntaf i gael eu gosod gan Awdurdod Lleol yng Nghymru ac maent ar gael i'w ddefnyddio'n rhad ac am ddim; a derbyniwyd ceisiadau eisoes wrth grwpiau cymunedol i gyflwyno rhagor ohonynt.<br><br>Yn ogystal, gosodwyd cysgodfan newydd â tho ar gyfer beiciau yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac yng Nghanolfan Chwaraeon Prifysgol Aberystwyth, i gyd- |

| | |
|---|---|
| | fynd â’r Gorsafoedd Gwefru E-feiciau newydd, er mwyn gwella’r ddarpariaeth o fannau i barcio beiciau yn y lleoliadau poblogaidd hyn.<br><br>Gosodwyd gorsaf newydd ar gyfer trwsio beiciau, sy’n cynnwys pwmp teiars, at ddefnydd y cyhoedd ar bwys Parc Kronberg ger Llwybr Beicio Rheidol. Bellach, ceir cyfanswm o 4 gorsaf trwsio beiciau sy’n cynnwys pwmp teiars yn Aberystwyth, ynghyd â phwmp ychwanegol sydd ar wahân. Mae’r rhain wedi bod yn boblogaidd iawn a derbyniwyd ceisiadau am ragor o unedau.<br><br>Cafodd troedffordd ei huwchraddio a’i lledaenu i safon cyd-ddefnyddio rhwng cylchfan Pont y Cleifion a mynedfa Parc Busnes Teifi yn Aberteifi. Roedd hyn yn cynnwys gosod cyrbau isel newydd er mwyn gwella mynediad at y gwasanaethau a’r cyfleusterau yn y parc busnes, gan gynnwys Gorsaf yr Heddlu. Yn ogystal, lledaenwyd y man croesi wrth y gylchfan a gosodwyd cyrbau isel newydd er mwyn gwella’r mynediad rhwng canol y dref a’r parc busnes.<br><br>Gosodwyd cysgodfan newydd ar gyfer beiciau gyda 4 rhesel feiciau yng Ngorsaf Heddlu Aberteifi ym Mharc Busnes Teifi i annog mwy o staff i seiclo i’r gwaith.<br><br>Y tu allan i fwyty Crwst yng nghanol tref Aberteifi, gosodwyd 2 gylch beiciau (*cycle hoops*) newydd ar gyfer 4 beic. |

Gwybodaeth ychwanegol (dewisol):

| |
|---|
| Amherthnasol |

Rwy'n cadarnhau y caiff yr adroddiad hwn ei gyhoeddi ar-lein a bydd ar gael hefyd fel copi caled o ofyn amdano, yn unol â'r Canllaw Cyflenwi statudol.

Llofnod y Prif Weithredwr:

Enw'r Prif Weithredwr: Mr Eifion Evans

Medi 2019

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

# Adroddiad Teithio Llesol Cyngor Sir Ceredigion 2018-19

## Cyflwyniad

O dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, dynodwyd tair tref yng Ngheredigion fel lleoliadau teithio llesol – Aberystwyth, Aberteifi a Llanbedr Pont Steffan. Bu i'r Ddeddf roi dyletswyddau newydd ar Lywodraeth Cymru a'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru. Bu Ceredigion ar flaen y gad am nifer o flynyddoedd – ac y mae'n parhau i fod felly – wrth ddarparu cyfleusterau seiclo a cherdded addas ar draws y Sir yn ei chyfanrwydd, gan ddarparu mynediad mwy diogel i leoliadau addysg, hyfforddiant, gwaith, gwasanaethau bob dydd a hamdden.

Roedd 2018-19 yn flwyddyn brysur a llwyddiannus iawn o ran Teithio Llesol a gwelliannau Llwybrau Diogel i'r Ysgol yng Ngheredigion a hynny am fod y Cyngor wedi derbyn £929,800 o arian grant oddi wrth Lywodraeth Cymru. Ar y cyd â £75,200 o arian cyfatebol ychwanegol, roedd hyn yn golygu gwerth £1,005,000 o gynlluniau ar draws y Sir yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae'r cynlluniau gwerthfawr hyn a ariannwyd gan grant cyfalaf yn gweddu i'r dim gyda gweithgareddau'r Cyngor ei hun o ran addysg, hyfforddiant a chyhoeddusrwydd Diogelwch y Ffyrdd (megis Kerbcraft a Hyfforddiant Seiclo'r Safonau Cenedlaethol), darparu Hebryngwyr Croesfannau Ysgol a chynlluniau rheoli traffig megis rhoi ar waith yr adolygiadau o derfynau cyflymder a pharcio ar y stryd a gynhaliwyd ar draws y Sir. Yn ogystal, mae'r cynlluniau seilwaith yma'n cyd-fynd â chynlluniau diogelwch a gwelliannau Llywodraeth Cymru ar Gefnffyrdd y Sir, megis cyflwyno terfynau cyflymder rhan-amser o 20 mya y tu allan i ysgolion.

## Cronfa Drafnidiaeth Leol - Aberystwyth

Yn dilyn dyfarniad cychwynnol o £400,000 gan Lywodraeth Cymru (a dyfarniad ychwanegol yn ystod y flwyddyn o £52,000) a £40,000 o arian cyfatebol gan Gyngor Sir Ceredigion, roedd yr Awdurdod yn medru cyflawni un o'r cynlluniau adeiladu mwyaf o ran Teithio Llesol a welwyd yn y blynyddoedd diwethaf yn y Sir. Adeiladwyd llwybr cyd-ddefnyddio newydd, cilomedr o hyd, rhwng Bow Street ac IBERS ym Mhlas Gogerddan lle mae safle newydd Campws Arloesi a Menter Aberystwyth yn cael ei ddatblygu gan Brifysgol Aberystwyth (Cyfeirnod y Map Rhwydwaith Integredig: CER-INMAB-617). Gweithiodd y Cyngor mewn partneriaeth â'r Brifysgol i wneud lle i'r llwybr cyd-ddefnyddio newydd hwn, sef Cam 1 o'r cyswllt arfaethedig rhwng Penrhyn-coch a'r Orsaf Drenau a'r Gyfnewidfa Drafnidiaeth sydd ar y gweill ar gyfer Bow Street ac y disgwylir iddo gael ei gwblhau yn 2020.

Mae'r llwybr cyd-ddefnyddio newydd 1km o hyd wedi'i adeiladu yn ôl safonau Canllawiau Dylunio Teithio Llesol ac mae o leiaf 2.5 metr o led ac mae iddo ymyl gwyrdd o 1.5 metr o led sy'n llain glustogi rhyngddo a'r ffordd gerbydau gerllaw. Gosodwyd 'llygaid solar' newydd yng nghanol y llwybr er mwyn taflu rhywfaint o olau am i fyny lle mae'r llwybr yn gwyro oddi wrth y ffordd gerbydau. Mae'r cynnyrch arloesol hwn yn cael ei dreialu yn y lleoliad hwn gyda'r nod o'i gyflwyno mewn lleoliadau gwledig eraill yn y dyfodol.

Roedd Swyddog Ecoleg y Cyngor wedi cynorthwyo gyda nifer o ffactorau amgylcheddol a oedd yn rhan o'r cynllun, megis: ffensys ar gyfer dyfrgwn a gosod sarn newydd i ddyfrgwn o dan bont yr heol; dewis amrywiaeth o rywogaethau brodorol wrth ailblannu perthi; plannu pum coeden newydd; symud canghennau a darnau o foncyff ffawydden a dorrwyd i lawr a'u cadw er mwyn creu cynefin bywyd gwyllt mewn man addas wrth y llwybr. Hefyd gosodwyd mainc newydd yn y lleoliad hwn wrth y plac sy'n cydnabod pwy ariannodd y cynllun.

Mae’r llwybr newydd yn ddeniadol ac eisoes mae’n cael ei ddefnyddio’n helaeth gan gerddwyr a beicwyr sy’n gwneud siwrneiau Teithio Llesol a hynny mewn man lle nad oedd darpariaeth ddiogel oddi ar y ffordd ynghynt.  Mae gan y llwybr newydd fanteision ychwanegol o ran iechyd a hamdden o ran defnyddwyr y llwybrau yng Nghoed Gogerddan (sy’n perthyn i Gyfoeth Naturiol Cymru) gerllaw.

Gosodwyd strwythur dur 2.5 metr o led yn lle’r bompren gul a fu yno. Ceir rhagor am y cynllun isod yn y lluniau cyn ac ar ôl yr adeiladu:








50

**Y Gronfa Teithio Llesol – Pecyn Ceredigion o Gynlluniau Teithio Llesol**

Ym mis Awst 2018, cafodd Cyngor Sir Ceredigion ddyfarniad grant ychwanegol yng nghanol y flwyddyn oddi wrth Lywodraeth Cymru, gwerth £212,000. Gydag arian cyfatebol gwerth £24,000 oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion, deuai'r cyfanswm i £236,000 ar gyfer pecyn o welliannau Teithio Llesol yn Aberystwyth ac Aberteifi.

**Pecyn Aberystwyth**



Chwith: Gosodwyd ramp ar gyfer beiciau islaw'r Llyfrgell Genedlaethol fel nad oes angen i feicwyr gario'u beiciau lan a lawr y grisiau (Cyfeirnod y Map Rhwydwaith Integredig: CER-INMAB-623).

Isod: Gosodwyd gorsaf Trwsio Beiciau newydd â phwmp teiars wrth fynedfa parc sglefrio Parc Kronberg, wrth ochr Llwybr Beicio Rheidol (bellach mae pedair gorsaf Trwsio Beiciau â phympiau teiars wedi'u gosod yn Aberystwyth, ynghyd ag un pwmp teiars arall ar ei ben ei hun):



Darparwyd nifer o gyrbau isel, palmentydd botymog a gwelliannau mynediad yng nghanol tref Aberystwyth yn ôl safonau Canllawiau Dylunio Teithio Llesol, a bydd y rhain o fudd, yn enwedig, i gerddwyr ac i ddefnyddwyr sgwteri symudedd/ cadeiriau gwthio a’r sawl sydd â nam ar y golwg.


Mae’r llun isod yn dangos y sefyllfa cyn y cynllun lle’r oedd ramp i feics a defnyddwyr anabl i Bont yr Odyn yn Nhrefechan gyda mynediad gwastad i’r cwrb ond nid oedd cwrb isel i’r palmant ar ochr arall y groesfan.



Felly, fel rhan o’r cynllun, gosodwyd palmant sy’n ymwthio i’r ffordd a chanddo gwrb isel, botymog a hynny i greu man croesi sy’n rhoi mynediad haws a mwy diogel i’r sawl sydd â chadair wthio neu sgwter symudedd, neu i gerddwyr.



**Gorsafoedd gwefru E-feiciau**




Mae 11 o orsafoedd gwefru e-feiciau wedi'u gosod mewn gwahanol fannau yn Aberystwyth ac maent am ddim i'r staff a'r cyhoedd eu defnyddio:

- gosodwyd tair gorsaf yn lloches feiciau'r staff wrth swyddfeydd y Cyngor yng Nghanolfan Rheidol;
- gosodwyd tair gorsaf wrth y Llyfrgell Genedlaethol i'r staff a'r cyhoedd eu defnyddio (gweler y llun ar y chwith);
- gosodwyd pum gorsaf ar gampws Penglais, Prifysgol Aberystwyth at ddefnydd y cyhoedd, y staff a'r myfyrwyr.

Dyma enghraifft bellach o seilwaith beicio arloesol yn cael ei weithredu gan Gyngor Sir Ceredigion, yr Awdurdod cyntaf yng Nghymru yn ôl pob tebyg i osod gorsafoedd gwefru e-feiciau a fydd yn helpu i hyrwyddo Teithio Llesol ac i wella ansawdd yr aer yn lleol a bodloni'r targedau i leihau carbon.

**Cynllun Llochesau Beiciau**

- Mae lloches newydd i feiciau wedi'i gosod wrth y Llyfrgell Genedlaethol sy'n cynnwys tair gorsaf gwefru e-feiciau.
- Mae lloches newydd i feiciau wedi'i gosod wrth y Ganolfan Chwaraeon ym Mhrifysgol Aberystwyth sy'n cynnwys un orsaf gwefru e-feiciau.
- Cafodd lloches feiciau a oedd yn bodoli eisoes ei symud i du cefn i Ganolfan y Celfyddydau ym Mhrifysgol Aberystwyth ac mae'n cynnwys un orsaf gwefru e-feiciau.



Chwith: Y Cynghorydd Alun Williams yn gwefru ei e-feic yn y lloches newydd i feiciau y tu allan i Ganolfan Chwaraeon Prifysgol Aberystwyth.

**Pecyn Aberteifi**

Cafodd y droetffordd o gylchfan Pont y Cleifion i fynedfa Parc Busnes Parc Teifi yn Aberteifi ei wella a'i lydanu i safon llwybr cyd-ddefnyddio (Cyfeirnod y Map Rhwydwaith Integredig: CER-INMCA-006). Roedd hyn yn cynnwys cyrbiau isel newydd er mwyn gwella mynediad i wasanaethau a chyfleusterau'r Parc Busnes, sy'n gartref hefyd i Orsaf Heddlu'r dref. Cafodd yr ynys groesi wrth y gylchfan hefyd ei llydanu a rhoddwyd cyrbiau isel newydd yno gan wella mynediad rhwng canol y dref a'r parc busnes, a oedd yn barhad o'r gwaith o lydanu'r droetffordd ar heol Pont y Cleifion y llynedd.

Gosodwyd ynys groesi lydanach ar gylchfan Pont y Cleifion i gydymffurfio â safonau Teithio Llesol, gan ddarparu lle mwy diogel i groesi rhwng canol y dref a pharc busnes Parc Teifi.

Mae lluniau cyn ac ar ôl y trefniant croesi i'w gweld isod:









Chwith: Gosodwyd lloches newydd i feiciau wrth Orsaf Heddlu Aberteifi ym Mharc Busnes Parc Teifi ar y cyd â chynllun y llwybr cyd-ddefnyddio y cyfeiriwyd ato uchod.

Isod: Gosodwyd dau *cyclehoop* newydd i ddal 4 beic ar gornel Stryd Morgan yng nghanol tref Aberteifi.



**Tregaron – Cynllun Llwybrau Diogel mewn Cymunedau wrth Ysgol Henry Richard 3-16**

Gan fod ysgol uwchradd Tregaron wedi ehangu i fod yn Ysgol Henry Richard 3-16 oed, gan gwmpasu'r hen ysgolion cynradd yn Nhregaron a Llanddewibrefi, gwnaed cais am grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau i wella diogelwch ar y ffordd yn ymyl yr ysgol 3-16 oed. Roedd cais y Cyngor Sir am grant yn llwyddiannus – rhoddodd Llywodraeth Cymru £70,800, rhoddodd Cyngor Sir Ceredigion arian cyfatebol gwerth £8,200 a rhoddodd Cyngor Tref Tregaron £3,000, gan ddod â chyfanswm gwerth y cynllun i £82,000. Gwariwyd rhagor wrth osod arwyddion electronig i nodi terfyn cyflymder rhan-amser a hefyd colofnau golau a goleuadau Belisha wrth y groesfan sebra newydd – cyfrannodd Cyngor Ceredigion £39,847 pellach at y cynllun gan ddod â chyfanswm y buddsoddiad i bron £122,000.

Cyflwynwyd mesurau gostegu traffig fel rhan o'r cynllun, gan gynnwys croesfan sebra newydd sy'n uwch na lefel y ffordd, law yn llaw â chyflwyno parthau 20 mya newydd a therfyn cyflymder 20 mya

rhan-amser. Mae'r gwelliannau ar bwyntiau croesi, megis cyrbiau isel a phalmant botymog, ynghyd â throetffyrdd gwell a bolardiau newydd, oll yn helpu i ddarparu llwybrau mwy diogel i'r ysgol i annog rhagor o siwrneiau Teithio Llesol.  Roedd y Cyngor wedi ail-gyflwyno'i Hebryngwr Croesfan Ysgol wrth leoliad yr ysgol newydd i sicrhau ymhellach ddiogelwch y sawl sy'n cerdded i'r ysgol.




Chwith:  croesfan sebra newydd, uwch, wedi'i osod rhwng canol y dref a'r ysgol.

Isod: Ffotograffau cyn ac ar ôl y cynllun sy'n dangos y gwelliannau a wnaed wrth fynedfa'r ysgol o ran diogelwch y ffordd.




Yn ychwanegol at y braslun uchod a geir o gynlluniau adeiladu a ariannwyd gan grantiau, mae Cyngor Sir Ceredigion wedi gwneud defnydd o grant datblygu llwybrau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Map Rhwydwaith Integredig. Gwnaed hyn i fwrw ymlaen â'r cynigion a'r cynlluniau Teithio Llesol a fwriedir yn Aberystwyth, Aberteifi a Llanbedr Pont Steffan.  Bydd y gwaith paratoi hwn yn

helpu i symud cynlluniau yn eu blaenau yn y blynyddoedd sydd i ddod (ar yr amod bod arian ar gael).

**Cynllun troetffordd a ariannwyd gan Gyngor Sir Ceredigion: Coedlan Pump, Penparcau**

Mewn ymateb i geisiadau gan ddefnyddwyr sgwteri symudedd yn lleol, nad oedd yn gallu defnyddio'r llwybr cul graeanog wrth y rhandiroedd ar Goedlan Pump, ariannodd y Cyngor Sir gynllun i lydanu'r llwybr a rhoi wyneb llyfn o darmac arno. Rhoddai hyn gyswllt gwell â'r llwybr cyd-ddefnyddio gerllaw sy'n arwain i ganol tref Aberystwyth ac a oedd wedi'i wella yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Isod: ffotograffau cyn ac ar ôl y gwaith adeilad.





**Gari Jones**
**Peiriannydd – Teithio Llesol a Diogel**
**Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol**
**Cyngor Sir Ceredigion**
**gwasanaethau.technegol@ceredigion.gov.uk**

**Medi 2019**

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Caru·Love Ceredigion